SiARC

Pecyn Cymorth Cyfathrebu

Rhifyn un, cyhoeddwyd Medi 2025

Cyflwyniad

Nod y pecyn cymorth cyfathrebu hwn yw cefnogi dull cydweithredol Prosiect SIARC, gan roi'r offer a'r adnoddau i chi i gyflawni gweithgareddau cyfathrebu yn effeithiol a fydd yn cefnogi ac yn ehangu cenhadaeth y prosiect, gan ein helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Nod y pecyn cymorth cyfathrebu hwn yw cefnogi dull cydweithredol Prosiect SIARC, gan roi'r offer a'r adnoddau i chi i gyflawni gweithgareddau cyfathrebu yn effeithiol a fydd yn cefnogi ac yn ehangu cenhadaeth y prosiect, gan ein helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Prosiect amlddisgyblaethol yw **Prosiect SIARC** sydd â'r nod o ddyfnhau ein dealltwriaeth o rywogaethau siarcod a morgathod Cymru a'r rôl hanfodol maen nhw'n ei chwarae yn ein hecosystemau morol.

Yn ei hanfod, mae'r prosiect yn meithrin cydweithio ystyrlon rhwng pysgotwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a llunwyr polisi i ddiogelu'r rhywogaethau hyn, sy'n aml yn cael eu hanwybyddu, a chyfrannu at adferiad gwyrdd ehangach Cymru. Gan ddefnyddio rhywogaethau elasmobranciaid blaenllaw, a thrwy gydweithio a chydlunio, mae'r prosiect yn ceisio nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i brofi ac ymgysylltu â'r arfordir a'r môr yn lleol, a chael mynediad iddynt.

Protocol Cyfathrebu

Wrth weithio mewn partneriaeth â Phrosiect SIARC, helpwch ni i adeiladu hunaniaeth gref trwy ddefnydd cyson o'n brand a'n negeseuon.

P'un a ydych chi'n defnyddio'r templedi a gymeradwywyd ymlaen llaw neu'n creu eich rhai eich hun, gofynnwn i chi ofyn am ein mewnbwn cyn rhannu unrhyw beth yn gyhoeddus. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau bod popeth a rennir am y prosiect yn gywir ac yn cyd-fynd â'n dulliau cyfathrebu cyffredinol.

I gael mewnbwn neu i gysylltu â ni am unrhyw ymholiadau am gyfathrebu / cynnal eich digwyddiad Prosiect SIARC eich hun, cysylltwch â:

Sarah Davies,
Cydlynydd Prosiect SIARC,
SIARC@zsl.org.

Cynnwys

1. Sut i ddefnyddio brand Prosiect SIARC

2. Fframwaith negeseuon

3.Templedi cynnwys a delweddau

4. Adnoddau ychwanegol

1. Sut i ddefnyddio brand Prosiect SIARC

Logo

Prif logo:

Am ganllawiau pellach ar ddefnyddio brand Prosiect SIARC, gweler y **canllawiau brand ehangach.**

Logos amgen:

Mae logos Prosiect SIARC ar gael **yma**.

Rhaid defnyddio'r marc logo a'r marc gair gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r un lleoliad a chyfrannau. Lle bo modd, dylid eu gosod yng nghornel dde uchaf unrhyw ddeunydd, ased brand neu raffigwaith. Maint fel a ganlyn:

- Isafswm o 120px o led ar gyfer y sgrin
- Isafswm o 30mm o led ar gyfer argraffu

Dyma enghraifft

Os nad yw'n bosibl gosod y logo yn y gornel dde uchaf, defnyddiwch y gornel dde isaf fel lleoliad amgen.

Os ydych chi'n defnyddio ein logos i hyrwyddo digwyddiad, cysylltwch â ni i gadarnhau a oes angen i chi arddangos logos ein harianwyr hefyd: **SIARC@zsl.org**

Palet lliw:

Prif liwiau:
Ein prif gyfres o liwiau yw'r pum lliw a ddefnyddir yn y logo:

C95 M72 Y46 K39 R19 G57 B80 #133950	C89 M59 Y32 K12 R38 G94 B127 #265E7F	C70 M36 Y47 K9 R85 G129 B127 #55817F	C78 M15 Y28 KO R1 G164 B181 #01A4B5	C75 M31 Y44 K5 R65 G135 B137 #419789

Lliwiau eilaidd
Ein cyfres eilaidd o liwiau yw'r pedwar lliw sy'n ategu'r prif liwiau a gellir eu defnyddio gyda'i gilydd pan fo angen amrywio lliw.

C20 M98 Y64 K7 R186 G39 B74 #BA274A	C50 M100 Y33 K15 R131 G33 B97 #832161	C7 M20 Y100 KO R240 G200 B8 #FOC808	C15 M10 Y15 KO R216 G218 B211 #D8DAD3

Teipograffeg

Manrope yw ein ffont. Dylid ei ddefnyddio lle bynnag y bo modd ac mae ar gael mewn llythrennau trwm ac ysgafn.

Prif benawdau

Manrope Semibold
Dylid ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer prif benawdau

Manrope Extrabold
Dylid ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer prif benawdau

Is-benawdau

Manrope Extrabold
Dylid ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer prif benawdau

Corff y testun

Manrope Regular
Dylid ei ddefnyddio ar gyfer corff y testun

Manrope Regular Italic
Dylid ei ddefnyddio i bwysleisio rhywbeth yng nghorff y testun, nid ar gyfer penawdau

Manrope Semibold
Gellir ei ddefnyddio i dynnu sylw at wybodaeth bwysig o fewn corff y testun

Dyfyniadau

Manrope Regular
Dylid ei ddefnyddio ar gyfer dyfyniadau o'r testun

Enghreifftiau

Dyma ychydig o enghreifftiau o sut y gellir defnyddio brand Prosiect SIARC wrth ddatblygu asedau ychwanegol fel cyflwyniadau neu bosteri:

Cyflwyniadau



Posteri

2. Fframwaith negeseuon

Bydd defnyddio negeseuon cyson ar draws eich sianeli chi a sianeli Prosiect SIARC yn creu effaith a hunaniaeth brand gryfach wrth atgyfnerthu pwysigrwydd arddangos, dathlu a diogelu amgylchedd morol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Defnyddiwch y negeseuon allweddol isod wrth gyfeirio at Brosiect SIARC.

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau) yn brosiect gydweithredol wedi'i lleoli yng Nghymru sydd wedi ymroi i ddyfnhau ein dealltwriaeth o rywogaethau siarcod a morgathod Cymru a'r rôl hanfodol maen nhw'n ei chwarae yn ein harfordir a'n môr.

Arweinir Prosiect SIARC gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghyd â chwe phartner cyflenwi a sawl partner cydweithredol.

Mae arfordir a môr Cymru yn llawn bywyd, ac mae Prosiect SIARC yn cynnig ffyrdd cyffrous i bawb – p'un a ydych chi'n byw ger yr arfordir neu ymhellach i mewn i'r tir – i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth.

Gall pawb chwarae rhan yn y gwaith o ddiogelu bywyd morol Cymru – ewch i projectsiarc.com i ddarganfod sut.

Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn ein dull o gyflawni ein gwaith cadwraeth. Drwy gydweithio a gwneud gwaith ymchwil, rydym yn ceisio nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad mewn cadwraeth siarcod a morgathod. I ddarllen ein hadolygiad a'n cynllun gweithredu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, **cliciwch yma**.

Canllawiau ar sut i siarad am siarcod:

Nod Prosiect SIARC yw codi ymwybyddiaeth am siarcod a morgathod, a'u dathlu fel elfennau hanfodol o'n harfordir a'n môr. Wrth gyfeirio at siarcod yn eich negeseuon sy'n cyfathrebu, dilynwch yr egwyddorion allweddol hyn:

Gwnewch ...

- Tynnu sylw at y ffaith fod siarcod yn hanfodol i'n harfordir a'n môr – gan helpu i gynnal cydbwysedd yn ein hecosystemau morol
- Dangos bod siarcod yn aml yn cael eu camddeall a'u portreadu'n annheg yn aml – gan ein helpu i newid y naratif
- Siarad am siarcod mewn goleuni cadarnhaol, gan nodi ein bod yn falch o'r rhywogaethau o amgylch ein harfordir ac yn eu dathlu
- Tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng siarcod a phobl a'r rolau cadarnhaol maen nhw'n eu chwarae
- Bod yn ymwybodol o'r cyfryngau a ddefnyddir – dangoswch arferion gorau wrth ymdrin neu ryngweithio â nhw, a sicrhewch eich bod yn rhoi cyd-destun i osgoi camddealltwriaeth
- Defnyddio delweddau o Gymru a'r DU wrth siarad am siarcod a morgathod yn y DU, i helpu i arddangos bywyd morol Cymru

Peidiwch â gwneud ...

- Defnyddio iaith sy'n seiliedig ar ofn (e.e. siarcod lladd, dyfroedd peryglus)
- Gor-gynhyrfu neu ddefnyddio themâu arswyd, e.e. cerddoriaeth Jaws, delweddaeth ddramatig
- Difenwi siarcod

Cysylltwch os ydych chi'n ansicr ynglŷn â'r geiriad neu'r delweddau: SIARC@zsl.org

3. Templedi a delweddaeth y cynnwys

Mae Prosiect SIARC yn dilyn **canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg** – gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Er mwyn rhoi cymorth wrth bostio'n ddwyieithog, fe welwch yn yr adran hon gopi a thempledi dwyieithog parod at ddibenion cyfathrebu cydweithredol, gan gynnwys:

- Graffigau y gellir eu lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- Penawdau cymeradwy ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- Templedi datganiadau i'r wasg / testun y gellir ei ailddefnyddio

Rydym hefyd yn anelu, lle bo modd, at sicrhau bod holl allbynnau, adnoddau a digwyddiadau Prosiect SIARC yn hygyrch ac rydym yn defnyddio'r egwyddorion canlynol i arwain hyn:

Gofynnwn i chi ystyried dilyn yr un arweiniad wrth ddatblygu cynnwys hygyrch.



Canllawiau hygyrchedd:

Am awgrymiadau am gynnwys ar gyfer gwasanaethau digidol, gwefannau ac apiau, ewch i **Safonau hygyrchedd ar gyfer LLYW.CYMRU I LLYW.CYMRU**
Ar gyfer dogfennau, ewch i **Creu dogfennau hygyrch I LLYW.CYMRU**

- Ceisiwch bob amser ddefnyddio iaith syml lle bo modd – er enghraifft, defnyddiwch "siarcod a morgathod" yn lle "elasmobranciaid" a defnyddiwch "arfordir a môr" yn lle "amgylchedd morol"
- Defnyddiwch iaith glir a chryno
- Ceisiwch osgoi acronymau, talfyriadau, jargon neu dermau technegol lle bo modd ac, os cânt eu defnyddio, esboniwch nhw y tro cyntaf eu bod yn ymddangos
- Defnyddiwch liwiau testun sy'n ymddangos yn glir yn erbyn lliw'r cefndir, neu defnyddiwch flwch i fframio'r testun fel ei fod yn haws ei ddarllen
- Osgowch ddefnyddio testun dros ddelweddau, oni bai fod yr ardal o liw solet plaen gyda chyferbyniad uchel, a defnyddiwch flwch i fframio'r testun os oes angen
- Osgowch ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU YN LLWYR – mae'n anoddach ei ddarllen
- Wrth roi dolenni i adnoddau eraill, osgowch ddefnyddio'r ymadrodd 'Cliciwch yma' ac, yn lle hynny, rhowch destun disgrifiadol i hyperddolenni fel 'Dewch o hyd i adnoddau drwy chwilio rhestrau llyfrgell y brifysgol' (mae hyn yn caniatáu defnyddio technoleg gynorthwyol fel rhaglenni darllen sgrin i ddilyn y ddolen)
- Os ydych chi'n creu cynnwys i'w roi ar wefan eich sefydliad, byddem yn eich annog i ddefnyddio ategyn hygyrchedd, os yw ar gael i chi
- Wrth greu adnoddau, ystyriwch liwddallineb
- Defnyddiwch destun amgen a phenawdau i ddisgrifio delweddau
- Defnyddiwch ffont sydd â ffurfiau clir ar lythrennau i'w gwneud yn ddarllenadwy, e.e. Manrope neu Arial, mewn maint lleiaf o 12pt

Mae'r canllawiau'n argymhellion arfer gorau ac mae llawer o adnoddau ar gael ar-lein i roi arweiniad i chi. Wrth i safonau gael eu diweddaru a'u gwella dros amser, byddem yn eich annog i wirio'r dolenni am wybodaeth gyfredol.

Os oes gennych unrhyw argymhellion ychwanegol sy'n arferion gorau i wella hygyrchedd, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Cysylltwch â ni: SIARC@zsl.org



Penawdau i’r cyfryngau cymdeithasol

Gallwch ddod o hyd i Brosiect SIARC ar Facebook ac Instagram gan ddefnyddio @ProjectSIARC.

Fan hyn, rydym ni’n rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith a wnawn a’r rhywogaethau a gefnogir gennym.

Byddem wrth ein bodd pe baech yn dilyn y tudalennau hyn – yn eu rhannu, yn rhoi sylwadau ac yn ein tagio yn eich postiadau a’ch straeon – fel y gallwn barhau i ehangu ein cenhadaeth a sicrhau cydweithio ymhlith cymunedau.

Gallwch hyd yn oed ddefnyddio’r testun awgrymedig isod i ddechrau arni.

Pysgotwyr

- Rydym yn falch o lunio partneriaeth â @ProjectSIARC - gan rannu ein gwybodaeth am y môr i ddiogelu siarcod a morgathod Cymru. Rydym yn gweithio gyda’n gilydd er mwyn cael dyfodol cynaliadwy 🎣🌊
- O’r dec i ddata’r labordy - rydym wedi bod yn gweithio gyda @ProjectSIARC er mwyn deall mwy am siarcod a morgathod Cymru 🦈💻
- [Grŵp Pysgotwyr] a @ProjectSIARC - yn chwarae eu rhan wrth ddiogelu bywyd morol Cymru🤝🎣
- Welsoch chi ymchwil diweddaraf @ProjectSIARC? Darllenwch fwy am y cynnydd y mae’n ei wneud yn XXX, yma: [Mewnosod Dolen] 🦈

Cymunedau

- Heddiw fe wnaethom ymuno â @ProjectSIARC ar y Great Eggcase Hunt a dod yn wyddonwyr dinasyddion am y diwrnod - gan helpu i gasglu gwybodaeth bwysig am y bywyd morol anhygoel ar ein stepen drws. Edrychwch beth wnaethon ni ei ddarganfod 🦈🥚 [Tag @TheSharkTrust]

- Wyddech chi fod rhai siarcod a phob morgath yn dodwy wyau - a gallwch chi eu canfod ar eich traeth lleol? Ymunwch â'r Great Eggcase Hunt @TheSharkTrust a dod yn dditectif morol yn eich cymuned eich hun! 🔎🦈 [Mewnosod Dolen / Tag @ProjectSIARC]

- Siarcod yng Nghymru? Oes - ac rydym yn helpu i gasglu gwybodaeth hanfodol i helpu i'w diogelu ochr yn ochr â @ProjectSIARC 🦈💙

Addysg

- Plymiodd ein disgyblion i fyd hudolus siarcod a morgathod diolch i @ProjectSIARC a'i [Adnodd Dysgu]. O'r ystafell ddosbarth i'r arfordir - rydym yn dysgu popeth am ein hamgylchedd morol rhyfeddol. 🦈

- Mae [Ysgol] yn falch o lunio partneriaeth â @ProjectSIARC i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddiogelu siarcod a morgathod yn nyfroedd Cymru 🤝🦈

- Rydym wedi partneru â @ProjectSIARC i greu adnoddau ysgol [X] i helpu disgyblion i ddysgu popeth am siarcod a morgathod Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn chwarae ein rhan er mwyn diogelu amgylchedd morol Cymru 🌊📚

Graffigau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Yn barod i'w lawrlwytho, yma.





Testun y gellir ei ailddefnyddio

Mae Prosiect SIARC yn brosiect arloesol, amlddisgyblaethol sy'n cyfuno gwyddorau cymdeithasol a biolegol. Fe'i cydarweinir gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, Blue Abacus, Minorities in Shark Sciences, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, The Shark Trust a Phrifysgol Abertawe ochr yn ochr â rhwydwaith eang o bartneriaid cydweithredol.

Mae Prosiect SIARC wedi ymrwymo i ymgorffori a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn ei ddull o wneud ei waith cadwraeth. Mae'r prosiect yn cydweithio â chymunedau, ysgolion, dinasyddion wyddonwyr a physgotwyr i gyd-greu dulliau i gael gwared ar rwystrau i gael mynediad at yr arfordir a'r môr a chael profiad ohonynt. Mae wedi ymroi i ddyfnhau ein dealltwriaeth o rywogaethau siarcod a morgathod Cymru – a elwir gyda'i gilydd yn elasmobranciaid – a'r rôl hanfodol maen nhw'n ei chwarae yn ein hecosystemau morol.

Yn ei hanfod, mae'r prosiect yn meithrin cydweithio ystyrlon rhwng pysgotwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a llunwyr polisi i ddiogelu'r rhywogaethau hyn, sy'n aml yn cael eu hanwybyddu, a chyfrannu at adferiad gwyrdd ehangach Cymru.

I gael gwybod mwy, ewch i: https://www.prosiectsiarc.com/

Templedi datganiadau i'r wasg

Enghreifftiau o benawdau:

- [Grŵp Actorion] a gwyddonwyr yn uno i ddiogelu bywyd morol.
- [Grŵp Actorion] yn [Lleoliad] yn ymuno â Phrosiect SIARC i ddiogelu siarcod a morgathod.
- [Grŵp Actorion] yn gweld [Rhywogaeth] brin yn [Lleoliad] ar ôl dod i bartneriaeth â Phrosiect SIARC

Templedi Pwy? Beth? Ble? Pryd? Pam?

- Mae [Grŵp Actorion] wedi ymuno â Phrosiect SIARC – prosiect arloesol, amlddisgyblaethol – heddiw [Diwrnod, Mis, Blwyddyn] i ryddhau/nodi/cyhoeddi [Canfyddiadau] sy'n ymroddedig i ddyfnhau ein dealltwriaeth o rywogaethau siarcod a morgathod Cymru.
- Mae [Grŵp Actorion] heddiw wedi cyhoeddi partneriaeth newydd gyda Phrosiect SIARC i gefnogi disgyblion yn [ysgol mewn Lleoliad] i gael mynediad at adnoddau sydd eu hangen yn fawr i ddiogelu amgylchedd morol Cymru.
- Mae Prosiect SIARC – prosiect arloesol, amlddisgyblaethol sy'n ymroddedig i ddyfnhau ein dealltwriaeth o rywogaethau siarcod a morgathod Cymru – wedi mynd i bartneriaeth â [Grŵp Actorion] i ddod â digwyddiad ysbrydoledig i [Lleoliad]. Bydd y digwyddiad yn XXX.

6. Adnoddau ychwanegol

Mae rhagor o wybodaeth am Prosiect SIARC ar ein gwefan:
https://www.prosiectsiarc.com/

I gael gwybod mwy am ein hymchwil barhaus i siarcod a morgathod, cliciwch yma: **https://www.prosiectsiarc.com/gwyddoniaeth-ac-ymchwil/**

I gael gwybod mwy am ein gwaith gyda chymunedau, cliciwch yma
https://www.prosiectsiarc.com/ymgysylltu-ar-gymuned/

I gael mynediad at ein hadnoddau y gellir eu lawrlwytho, cliciwch yma:
https://www.prosiectsiarc.com/adnoddau/



SiARC

www.projectsiarc.com/

www.instagram.com/projectsiarc/

www.facebook.com/ProjectSIARC

www.x.com/ProjectSIARC

ZSL

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government